



Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron mis Tachwedd / Tregaron Town Council November Meeting Nos Lun / Monday 17.11.2025

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

COFNODION CYFARFOD MIS TACHWEDD / NOVEMBER MEETING MINUTES

1.	<p>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Rhian Hughes (Cadeirydd/Chair), Catherine Hughes, Arwel Jones, Jo- Alice Davies, Dafydd Richards, Meirian Morgan, Cerith Evans a John Davies</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p> <p>PO Liz Jenkins</p>	
2.	<p>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:</p> <p>Cyng / Cllr. Gwion James (yn mynychu cyfarfod arall ar ran y Cyngor Tref / <i>attending another meeting on behalf of the Town Council</i>)</p> <p>Cyng / Cllr. Rhian Jones.</p> <p>PCSO John Evans.</p> <p>Sam Jones</p>	
3.	<p>DATGAN DERBYN SWYDD / DECLARATION OF ACCEPTANCE OF OFFICE</p> <p>Darllenodd y Cyng John Davies a Cyng Cerith Evans y datganiad derbyn swydd a'i arwyddo. Cytunodd y ddau i dderbyn Côd Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion.</p> <p><i>Cllr Cerith Evans and Cllr John Davies read and signed the acceptance of office. Both agreed to accept the Ceredigion County Council Code of Conduct.</i></p>	
4.	<p>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS</p> <p>4.1 –</p> <p>Estynnwyd llongyfarchiadau i Ysgol Henry Richard a Merched Soar ar eu llwyddiant yn ddiweddar yn yr Ŵyl Gerdd Dant, Clwb Ffermwyr Ifanc Tregaron ar ei llwyddiant yn Eisteddfod C.Ff.I Cymru, Gwesty Talbot Tregaron am ennill gwobr “Y Profiad Gwesty Gorau” yng Ngwobrau Lletygarwch Cymru 2025 ac i Orsaf Brigad Dân Tregaron am ennill Gwobr Rhagoriaeth Rhanbarth y Gogledd yn Gwobrau blynyddol Mwy na Thanau yn Unig, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.</p> <p><i>Congratulations were extended to Ysgol Henry Richard & Merched Soar on their success at the ‘Gŵyl Gerdd Dant’, Tregaron Young Farmers Club on its success in YFC Wales Eisteddfod, Talbot Hotel Tregaron for winning the “Best Hotel Experience” award at the Welsh Hospitality Awards 2025 and to Tregaron Fire Brigade Station for Winning the ‘North Region Excellence’ Award at the More Than Just Fires Awards, Mid and West Wales Fire and Rescue Service.</i></p> <p>4.2 –</p>	

	<p>Estynnwyd cydymdeimlad â'r Cynghorydd Rhian Jones a'r teulu yn eu profedigaeth yn ddiweddar.</p> <p><i>Condolences were extended to Councillor Rhian Jones and the family in their recent Bereavement.</i></p> <p>4.3 – Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gymerodd ran yng ngwasanaeth Sul y Cofio. <i>The Chair thanked everyone who took part in the Remembrance Sunday service.</i></p>	
5.	<p>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT Roedd PS Liz Jenkins yn bresennol – rhai pethau i'w adrodd dros y mis diwethaf. <i>PS Liz Jenkins was present – few things to report from the last month.</i></p>	
6.	<p>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
7.	<p>CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 20/10/2025 Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir. <i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Meirian Morgan Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Arwel Jones</p>	
8.	<p>MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES Dim i'w gofnodi. Nothing to report.</p>	
9.	<p>CYNGOR SIR CERDIGION COUNTY COUNCIL</p> <p>A) Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC – Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • 23/10/25 - Bwletin Costau Byw Ceredigion Cost of Living Bulletin • 27/10/25 - Cau Ffordd Dros Dro / Temporary Road Closure: B4343 Llanfair Clydogau, Llanbedr Pont Steffan/Lampeter • 27/10/25 - Cau Ffordd Dros Dro / Temporary Road Closure: A485 Heol yr Orsaf/Station Road, Tregaron • 27/10/25 - Cau Ffordd Dros Dro / Temporary Road Closure: Maesyrawel, Tregaron • 28/10/25 - Ymgynghoriad: Datganiad o Bolisi Trwyddedu 2026-2031 / Consultation: Statement of Licensing Policy 2026-2031 • 28/10/25 - Re: Cysgodfannau Bysiau/Bus Shelters • 03/11/25 - Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / Special Events Road Closure: Sgwâr Tregaron Square - Dathliad Nadolig Tregaron / Tregaron Christmas Celebration • 03/11/25 - FW: Llundio Dyfodol ein Heconomi Leol / Shaping the Future of our Local Economy • 04/11/25 - Prosiect Diwylliant / Cultural Project – Holiadur / Questionnaire • 10/11/25 - Cau Ffordd Dros Dro / Temporary Road Closure: B4340 Ystrad Meurig, Aberystwyth <p>B) Diweddariad gan yr Aelod Lleol / <i>Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies –</i> Dim i'w gofnodi.</p>	

	<i>Nothing to report.</i>	
10.	<p>CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS Balans y Banc / <i>Bank Balance</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrif Busnes Cyfredol / <i>Business Current</i> – £18,363.50 • Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve</i> – £20,206.94 • Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Current (Cadeirydd / Chairman)</i> – £1,925.26 • Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve</i> – £848.41 <p>A) Taliadau mis Hydref / <i>October payments</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i> £283.29 • Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i> £352.90 • HMRC £159.20 • Cyngor Sir Ceredigion £71.00 • Aber Pickers £360.00 <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Arwel Jones Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Dafydd Richards</p> <p>B) <u>Anfonebau T E Electrical</u> Mae T E Electrical wedi cytuno i'r Cyngor dalu'r anfonebau mewn rhandaliadau. Trafodwyd a phenderfynwyd talu anfoneb 2023 yn llawn nawr ac anfoneb 2024 mewn rhandaliadau o fis Ebrill 2026 ymlaen. Penderfynwyd hefyd gofyn am anfoneb 2025 a'i dalu ym mis Ionawr.</p> <p><u>T E Electrical Invoices</u> <i>T E Electrical has agreed for the Council to pay the invoices in instalments. It was discussed and decided to pay the 2023 invoice in full now and the 2024 invoice in instalments from April 2026 onwards. It was also decided to ask for the 2025 invoice and pay it in January.</i></p> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Meirian Morgan Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Jo-Alice Davies</p> <p>C) Incwm / <i>Income</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> • 31/10/2025 - Preaesept 3 <i>Precept 2024/25</i> - £10,000 	Clerc / Clerk
11.	<p>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p> <p>Mae angen gwneud y canlynol -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Stryd y Capel, Heol Pontrhydefendigaid. • Glanhau strydoedd eraill yn eu tro. • Glanhau o amgylch Henry Richard a'r meinciau tu flaen Rhiannon <p><i>The following needs to be done –</i></p>	

	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydfendigaid Road.</i> • <i>Other streets to be cleaned in rotation.</i> • <i>Clean around Henry Richard and the benches by Rhiannon</i> 	
12.	<p>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS</p> <p><u>Parc a Blodau / Park & Flowers</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Parc / Park</u> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Gwiriadau bob pythefnos lechyd a Diogelwch y Parc i barhau - Cyng. Catherine Hughes i gynnal y gwiriadau yn Tachwedd/Rhagfyr. Diolchwyd i Cyng Catherine Hughes am wneud mis diwethaf. Gwiriadau bob pythefnos i'w wneud dros y gaeaf.</i> <p><i>Fortnightly Health & Safety checks of the Park to continue –Cllr. Catherine Hughes to carry out the checks for November/December. Thanks was extended to Catherine Hughes for doing last month. Fortnightly checks to be carried out over the winter.</i></p> <p><u>Nadolig / Christmas</u></p> <p>Dathliad Nadolig / Christmas Celebration 05/12/25 –</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Mae cais wedi'i gyflwyno i'r Cyngor Sir am ganiatâd i gau'r sgwâr.</i> <i>Application has been submitted to CCC for permission to close the square.</i> • <i>Coed Nadolig / Christmas Trees</i> Clerc wedi archebu'r coed am eleni <i>Clerk has ordered the trees for this year</i> • <i>Adloniant – Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda Merched Soar a Ysgol Henry Richard</i> <i>Entertainment – Clerk has made enquiries with Merched Soar and Ysgol Henry Richard</i> • <i>Bwyd – Halen a Pupur ar Rhewl yn dod i ddarparu bwyd.</i> <i>Food – Halen a Pupur ar Rhewl will be attending to provide food.</i> • <i>Clerc i gysylltu â Spar ynglŷn â Mince Pies a Mulled Wine.</i> <i>Clerk to contact Spar with regards to Mince Pies and Mulled Wine.</i> • <i>Stondinau yn y Neuadd Goffa - posibilrwydd y bydd rhai stondinau yn y neuadd eleni - mae hyn i'w gadarnhau yn yr wythnosau nesaf.</i> <i>Stalls in the Memorial Hall - possibility of some stalls in the hall this year - this is to be confirmed in the coming weeks.</i> • <i>Taith Siôn Corn o amgylch y dref - 22/12/2025 (os yw'r tywydd yn caniatáu)</i> <i>Santa Tour of the town - 22/12/2025 (weather permitting)</i> 	<p>Cyng / Cllr Catherine Hughes</p> <p>Clerc / Clerk</p>
13.	<p>PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS</p> <p>Prif flaenoriaethau'r Cyngor Tref yw / <i>The Town Council's main priorities are -</i></p> <ol style="list-style-type: none"> 1) <i>Llwybr Ystwyth / Ystwyth Trail</i> 2) <i>Cae pob tywydd & Trac Rhedeg / All weather pitch & Running Track</i> 3) <i>Gardd Gymunedol / Community Garden</i> 4) <i>Prosiect Peilot Cau Sgwâr / Square Closure Pilot project</i> 	

Prif flaenoriaeth y Cyngor Tref am 2025 yw prosiect Llwybr Ystwyth. Cyng Arwel Jones i symud y prosiect ymlaen ac i hysbysu'r Cyngor Tref am unrhyw ddatblygiadau.
The Town Council's main priority for 2025 is the Ystwyth Trail project. Cllrs. Arwel Jones to move the project forward and to keep the Town Council informed of any developments.

Cynllun Prosiectau'r Dyfodol – Cynghorwyr i gymryd cyfrifoldeb am un prosiect ac arwain –
Future Projects Plan – Councillors to take responsibility for one project and lead –

	Prosiect / Project	Pwy / Who	Diweddariad / Update
1.	Llwybr Ystwyth / Ystwyth Trail	Cyng/Cllr Arwel Jones	Ar waith <i>Ongoing</i>
2.	Gwefan i'r dref a'r Bwrdd Digidol / Town Website & Digital Board	Cyng/Cllr Meirian Morgan & Arwel Jones Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
3.	Ffynnon Garon	Cyng/Cllr Rhian Jones & D. Roberts	Ar waith <i>Ongoing</i>
4.	Gardd Gymunedol / Community Garden	Cyng/Cllr Rhian Hughes & Catherine Hughes	Aros am y brydles gan CSC Waiting for the lease from CCC Ffes 2 Ar waith – yn y gwanwyn/haf Phase 2 Ongoing – in the spring/summer

1. Llwybr Ystwyth Trail
 Dim i'w gofnodi.
Nothing to report.

3. Ffynnon Garon
 Cyng Arwel Jones i gysylltu â TTS ynglŷn â gwaith yn Ffynnon Garon.
Cllr Arwel Jones to contact TTS with regards to work at Ffynnon Garon.

4. Gardd Gymunedol / Community Garden
 Prosiect yn symud ymlaen wrth gyd-weithio gyda A.Polkey a grwp o unigolion lleol. Cyflwynodd y Cyngor Sir gais am grant ar ein rhan ar gyfer yr Ardd Gymunedol ac mae'r cais wedi bod yn llwyddiannus. Mae gwaith yn cael ei wneud nawr i symud ymlaen ymhellach â datblygiad y grant. Pawb yn gytun y dylai'r gwaith barhau a symud ymlaen. Pawb yn cytuno i dalu cost llogi ystafell ar gyfer cyfarfodydd grŵp yr Ardd Gymunedol

*Project moving forward in collaboration with A.Polkey and a group of local individuals.
 The County Council submitted a grant application on our behalf for the Community Garden and the application has been successful. Work is now being done to further move forward with the development of the grant. All in agreement for the work to*

Cyng / Cllr
 Arwel
 Jones

	<i>continue and move forward. All in agreement to cover the cost of room hire for the Community Garden group meetings</i>	
14.	CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i>	
15.	UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES Dim i'w gofnodi – gwybodaeth wedi cael eu ddanfon ymlaen at bawb. <i>Nothing to report – information has been sent on to everyone.</i>	
16.	GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE 16.1 – Digwyddiad Lles Tregaron / <i>Tregaron Wellbeing Event</i> 16.2 – Ymestyn Dyddiad Cau Ymgynghori Cyn Ymgeisio – Hyb Ynni Gwynt Waun Maenllwyd <i>Extension of Pre-Application Consultation Deadline – Waun Maenllwyd Wind Energy Hub</i> 16.3 – Waun Maenllywd - Cronfa Buddiannau Cymunedol a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Perchnogaeth - Y Cyngorydd Gwion James yn mynychu cyfarfod gyda Chynghorau Cymuned eraill yn yr ardal i drafod. <i>Waun Maenllywd - Community Benefit Fund and Ownership MoU - Cllr Gwion James attending meeting with other Community Councils in the area to discuss</i> 16.4 – Calendr Digwyddiadau Tachwedd <i>November Event Calendar</i> 16.5 – Bwletin CHTh PCC Bulletin - Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu <i>Office of the Police and Crime Commissioner</i> 16.6 – Grantiau Perthyn i grwpiau cymunedol - <i>Perthyn grant funding for community groups</i> 16.7 – Cyflwyniad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gynabyddiaeth / <i>Submission of the Draft Annual Remuneration Report 2026–27</i> 16.8 – Parc Ynni Lan Fawr a Bryn Rhudd – Lansio ymgynghoriad anstatudol (06 Tachwedd – 18 Rhagfyr) <i>Lan Fawr and Bryn Rhudd Energy Park – Launch of non-statutory consultation (06 November – 18 December)</i> 16.9 – Cylchlythyr Aelodau CiG Tachwedd 2025 <i>WaW Members' Newsletter November 2025</i> 16.10 – Gweminar Darganfyddwch Eich Rôl Wirfoddoli <i>Find Your Volunteer Role Webinar - Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Office of the Police and Crime Commissioner</i>	

17.	<p>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</p> <p>17.1 – Gwobr Caru'ch Cymuned Award Mae'r cais wedi cyrraedd y rhestr fer yn y categori 'Tref' - angen lluniau a fideos o'r dref i wneud ffilm fer am y Dref i'w dangos yn y noson wobrwyo ar 11/12/25. Cyng. Rhian Hughes & Catherine Hughes i fynychu ar ran y Cyngor Tref.</p> <p><i>Application has been shortlisted in the 'Town' Category - need photos and videos of the town to make a short film about the Town to show at the awards evening on 11/12/25. Cllr. Rhian Hughes & Catherine Hughes to attend on behalf of the Town Council.</i></p> <p>17.2 – Yng nghyfarfod mis Rhagfyr bydd angen trafod praesept 2026/2027 - mae'n bwysig bod pob Cyngorydd yn bresennol i drafod a phenderfynu ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cyfarfod i ddechrau am 7pm In the December meeting the 2026/2027 precept will be have to be discussed - important that all Councillors attend to discuss and decide the precept for the next financial year. Meeting to start at 7pm.</p> <p>17.3 – Mae angen gwirio biniau graean o gwmpas y ward. Y Cyngorydd Dafydd Richards a John Davies i wneud hyn. Y clerck i anfon rhestr o'r holl finiau atynt. <i>Grit bins need to be checked around the ward. Cllr Dafydd Richards and John Davies to do this. Clerk to send a list of all bins to them.</i></p> <p>17.4 – Cyng / Cllr Catherine Hughes Cais am fainc ar Bont Einion - mae hyn wedi cael ei drafod a'i gytuno. Bydd y fainc yn cael ei gosod yn y Gwanwyn. <i>Request for a bench on Pont Einion - this has been discussed and agreed. Bench to be put in place in the Spring.</i></p> <p>Mae trelar wedi cael ei adael yn cilfan Maesglas ers wythnosau. <i>A trailer has been left at Maesglas laybay for weeks.</i></p> <p>17.5 – Cyng / Cllr Rhian Hughes Cais gan Bwyllgor y Carnifal am wybodaeth dderbyniodd Cyngor y Dref y llynedd ar yr hyfforddiant Marsial Ffyrdd. Y clerck i'w anfon ymlaen at y Cyng. Rhian Hughes. <i>Request from the Carnival Committee for information that the Town Council received last year on the Road Marshalling training. Clerk to forward to Cllr Rhian Hughes.</i></p>	<p>Cyng / Cllr Rhian Hughes & Catherine Hughes</p> <p>Clerck / Clerck</p> <p>Clerck / Clerck</p> <p>Clerck / Clerck</p>
	Terfynwyd y cyfarfod / Meeting was closed	